

**Absenoldeb disgyblion oherwydd Covid-19  
Canllawiau cryno i rieni**

<b>BETH SYDD ANGEN EI WNEUD.....</b>	<b>CAM SYDD ANGEN EI GYMRYD</b>	<b>MAE MODD I FY MHLENTYN DDYCHWELYD I'R YSGOL.....</b>
<p>Mae gyda fy mhlentyn symptomau Covid-19:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>TYMHEREDD UCHEL</b> – mae hyn yn golygu bod eich brest neu'ch cefn yn teimlo'n boeth pan fydd rhywun yn cyffwrdd ag ef.</li> <li>• <b>PESWCH NEWYDD, PARHAUS</b> – mae hyn yn golygu eich bod chi'n peswch am fwy nag awr neu'n cael 3 pwl o beswch neu ragor o fewn 24 awr.</li> <li>• <b>COLLI'R GALLU I AROGLI NEU FLASU NEU NEWID SYLWEDDOL O RAN HYN</b> – mae hyn yn golygu eich bod wedi sylwi nad oes modd i chi aroglu na blasu unrhyw beth.</li> </ul>	<p><b>PEIDIWCH AG ANFON EICH PLENTYN I'R YSGOL.</b></p> <p>Cysylltwch â'r ysgol i'w gwneud yn effro i'r sefyllfa.</p> <p>Rhaid i'r aelwyd gyfan hunanyngysu am 10 diwrnod.</p> <p>Mynnwch brawf.</p> <p><b>RHOWCH WYBOD I'R YSGOL AM GANLYNIAD Y PRAWF AR UNWAITH</b></p>	<p>... os yw canlyniad y prawf yn negatiff ac mae'r plentyn yn teimlo'n iach</p> <p>(oni bai fod Swyddog Olrhain Cysylltiadau yn gofyn i chi hunanyngysu am 10 diwrnod, neu os bydd angen gwneud hynny ar ôl gwyliau (rhagor o fanylion isod)).</p>
<p>Os yw'r prawf yn dangos fod gan fy mhlentyn Covid-19 .....</p>	<p><b>PEIDIWCH AG ANFON EICH PLENTYN I'R YSGOL.</b></p> <p>Cysylltwch â'r ysgol i'w gwneud yn effro i'r sefyllfa.</p> <p>Cytunwch ar y dyddiad cynharaf posibl y mae modd i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol. <b>O leiaf 10 diwrnod.</b></p> <p>Rhaid i'r aelwyd gyfan hunanyngysu am 10 diwrnod.</p>	<p>.....os yw'r plentyn yn teimlo'n well.</p> <p>Noder: <b>Mae modd i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol ar ôl 10 diwrnod</b> hyd yn oed os oes ganddo beswch ac os dydy e dal methu blasu/aroglu. Mae modd i'r symptomau yma bara am sawl wythnos.</p>

BETH SYDD ANGEN EI WNEUD.....	CAM SYDD ANGEN EI GYMRYD	MAE MODD I FY MHLENTYN DDYCHWEL YD I'R YSGOL.....
	Cysylltwch â'r grŵp (swigen) er mwyn hunanynysu/dysgu o bell.	
Os yw'r prawf yn dangos nad oes gan fy mhlentyn Covid-19....	<p><b>CYSYLLTWCH Â'R YSGOL.</b></p> <p>Mynnwch sgwrs er mwyn trefnu pryd y mae modd i'ch plentyn chi ddychwelyd i'r ysgol.</p> <p><b><i>Nodwch - nid yw canlyniad negatif bob amser yn golygu bod modd dychwelyd i'r ysgol yn syth.</i></b></p> <p><b><i>Os yw'r plentyn yn hunanynysu oherwydd un o'r amgylchiadau canlynol, dylai wneud hynny am 10 diwrnod er iddo gael canlyniad negatif:-</i></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>wedi cael cyswllt gyda rhywun sydd wedi cael prawf positif;</i></li> <li>• <i>yn dilyn cyfarwyddyd swyddogion Profi, Orlhain a Diogelu, neu</i></li> <li>• <i>mewn cwarantîn ar ôl bod dramor.</i></li> </ul>	<p>....os yw canlyniad y prawf yn negatif ac mae'r plentyn yn teimlo'n iach.</p> <p><b><i>Nodwch - nid yw canlyniad negatif bob amser yn golygu bod modd dychwelyd i'r ysgol yn syth. Os yw'r plentyn yn hunanynysu oherwydd un o'r amgylchiadau canlynol, dylai wneud hynny am 10 diwrnod er iddo gael canlyniad negatif:-</i></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>wedi cael cyswllt gyda rhywun sydd wedi cael prawf positif;</i></li> <li>• <i>yn dilyn cyfarwyddyd swyddogion Profi, Orlhain a Diogelu, neu</i></li> <li>• <i>mewn cwarantîn ar ôl bod dramor.</i></li> </ul>
Os yw fy mhlentyn yn sâl gyda symptomau sydd ddim yn gysylltiedig â Covid-19....	<b>DILYNWCH BOLISI ABSENOLDEB ARFEROL YR YSGOL.</b>	Os yw eich plentyn chi'n chwydu neu os oes dolur rhydd ganddo, rhaid iddo

BETH SYDD ANGEN EI WNEUD.....	CAM SYDD ANGEN EI GYMRYD	MAE MODD I FY MHLENTYN DDYCHWELYD I'R YSGOL.....
		ddychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnod o 48 awr.
Os oes gan rywun yn fy aelwyd i symptomau Covid-19....	<p><b>PEIDIWCH AG ANFON EICH PLENTYN I'R YSGOL.</b></p> <p>Cysylltwch â'r ysgol.</p> <p>Dylai pawb sy'n byw ar yr aelwyd, ac sydd â symptomau, gael prawf. Dylai'r aelwyd gyfan hunanynysu am 10 diwrnod neu nes bydd canlyniad prawf y sawl sydd â symptomau wedi'i gadarnhau...</p> <p><b>RHOWCH WYBOD I'R YSGOL AM GANLYNIAD Y PRAWF AR UNWAITH.</b></p>	.... os yw canlyniad y prawf yn negatiff neu, os bydd rhywun sy'n byw ar yr aelwyd yn cael canlyniad positif, ar ôl hunanynysu am 10 diwrnod.
Os oes rhywun yn fy aelwyd yn cael canlyniad prawf Covid-19 positif ....	<p><b>PEIDIWCH AG ANFON EICH PLENTYN I'R YSGOL.</b></p> <p>Cysylltwch â'r ysgol.</p> <p>Cytunwch ar y dyddiad cynharaf posibl y mae modd i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol. <b>O leiaf 10 diwrnod.</b></p>	....os yw'ch plentyn wedi hunanynysu am gyfnod o <b>10 diwrnod.</b>
Os yw'r garfan Profi, Orlhain a Diogelu/ysgol wedi nodi bod fy mhleNTyn wedi bod mewn cysylltiad agos â rhywun sydd â symptomau Covid-19 Covid19 .....	<p><b>PEIDIWCH AG ANFON EICH PLENTYN I'R YSGOL.</b></p> <p><b>CYSYLLTWCH Â'R YSGOL.</b></p> <p>Cytunwch ar y dyddiad cynharaf posibl y mae modd</p>	....Os yw'ch plentyn wedi hunanynysu am gyfnod o <b>10 diwrnod</b>

<b>BETH SYDD ANGEN EI WNEUD.....</b>	<b>CAM SYDD ANGEN EI GYMRYD</b>	<b>MAE MODD I FY MHLENTYN DDYCHWELYD I'R YSGOL.....</b>
	i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol. <b>O leiaf 10 diwrnod.</b>	
Os ydyn ni fel teulu, neu fy mhlentyn, wedi teithio dramor a rhaid hunanynysu oherwydd cwarantîn.....	<p>Peidiwch â chymryd absenoldeb heb awdurdod yn ystod y tymor ysgol.</p> <p>Dylech ystyried gofynion cwarantîn a chyngor y Swyddfa Dramor a Chymanwlad wrth drefnu gwyliau.</p> <p>Os ydych chi'n dychwelyd o wlad, lle mae'n orfodol i fod mewn cwarantîn ar ôl dod nôl. Cytunwch ar y dyddiad cynharaf posibl y mae modd i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol. <b>O leiaf 10 diwrnod o'r dyddiad rydych chi'n dychwelyd o'ch gwyliau.</b></p> <p>Rhaid i'r aelwyd gyfan hunanynysu.</p>	.....os yw cyfnod y cwarantîn, <b>o 10 diwrnod, wedi'i gwblhau ac mae canlyniad unrhyw brawf gofynnol yn negatif.</b>
Os ydyn ni wedi derbyn cyngor meddygol bod yn rhaid i fy mhlentyn fod yn aelod o'r grwpiau sy'n cael eu gwarchod eto.....	<p><b>PEIDIWCH AG ANFON EICH PLENTYN I'R YSGOL.</b></p> <p><b>CYSYLLTWCH Â'R YSGOL.</b></p> <p>Daliwch ati i warchod nes eich bod chi'n clywed yn wahanol a'r cyfyngiadau'n cael eu llacio eto.</p>	.....os yw'r ysgol yn gadael i chi wybod bod y cyfyngiadau wedi'u llacio ac mae modd i'ch plentyn chi ddychwelyd i'r ysgol.
Os yw 'swigen' fy mhlentyn wedi cau oherwydd nifer o achosion Covid-19 yn yr ysgol.....	<b>PEIDIWCH AG ANFON EICH PLENTYN I'R YSGOL.</b>	.....os yw'r ysgol yn rhoi gwybod i chi bod grŵp cyswllt ('swigen') eich plentyn wedi ailagor

<b>BETH SYDD ANGEN EI WNEUD.....</b>	<b>CAM SYDD ANGEN EI GYMRYD</b>	<b>MAE MODD I FY MHLENTYN DDYCHWEL YD I'R YSGOL.....</b>
	<p>Cefnogwch eich plentyn gartref a sicrhewch ei fod yn cymryd rhan mewn dysgu o bell, fydd yn cael ei ddarparu gan yr ysgol.</p> <p>Bydd angen i'ch plentyn chi <b>hunanyysu am 10 diwrnod.</b></p>	